

# Y Gyfres Gynllunio: 9 – Cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach

Mehfin 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**

E-bost: **[Senedd.Research@Senedd.Wales](mailto:Senedd.Research@Senedd.Wales)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Gyfres Gynllunio:

## 9 – Cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach

Mehefin 2022

---

**Awdur:**  
Rhiannon Hardiman



## Cynnwys

**Beth yw cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach? ..... 1**

**Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?..... 1**

**Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir? ..... 2**

Eiddo Domestig ..... 2

Eiddo Annomestig..... 3

**Pryd mae angen cais cynllunio?..... 4**

**Rhagor o wybodaeth ..... 5**

Llywodraeth Cymru ..... 5

Ymchwil y Senedd ..... 5

---

## Beth yw cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach?

Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn nodweddiadol yn cynnwys gosod paneli solar a thyrbinau gwynt mewn eiddo domestig ac annomestig. Mae enghreifftiau eraill o dechnolegau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn cynnwys pypiau gwres ffynhonnell aer a phympiau gwres o'r ddaear, systemau biomás a systemau gwres a phŵer cyfunedig (CHP).

## Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?

Amlinellir polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni ym **Mholisi Cynllunio Cymru. Argraffiad 11** a **Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040**. Dywed Polisi Cynllunio Cymru mai blaenoriaeth uchaf Llywodraeth Cymru yw lleihau'r galw am ynni lle bynnag y mae'n bosibl ac yn fforddiadwy, a bod yn rhaid i drydan carbon isel ddod yn brif ffynhonnell ynni yng Nghymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi symud i economi carbon isel a thwf ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy.

Ystyrir gosod unrhyw fath o offer ynni yn yr awyr agored yn ddatblygu. Mae rhywfaint o'r offer hwn yn 'ddatblygiad a ganiateir' ac, yn amodol ar rai cyfyngiadau ac amodau, nid oes angen cyflwyno cais cynllunio. Bydd angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer gosod unrhyw offer nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn y **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO)**, ac unrhyw fath arall o ynni adnewyddadwy na chyfeirir ato yn y GPDO.

## Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir?

Mae hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach mewn eiddo domestig ac annomestig wedi'u nodi yn Atodlen 2 y GPDO fel y'i diwygiwyd. Y rhannau perthnasol o'r GPDO yw Rhan 40 Gosod offer microgynhyrchu domestig, a Rhan 43 Gosod offer cynhyrchu ynni annomestig.

At ddibenion yr hawliau datblygu presennol a ganiateir, ar gyfer pob technoleg ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ar eiddo domestig a'r rhan fwyaf o dechnoleg ynni adnewyddadwy ar eiddo annomestig (ac eithrio paneli solar) disgrifir datblygiad fel microgynhyrchu a ddiffinnir yn Rhan 2 o **Ddeddf Ynni 2004** fel:

- technolegau sy'n cynhyrchu **trydan** – capasiti hyd at 50 cilowat (kW), gan gynnwys paneli solar ffotofoltäig (PV), paneli solar a micro-gynlluniau gwres a phŵer cyfunedig; a
- technolegau sy'n cynhyrchu **gwres** (thermol) – capasiti hyd at 45 kW, gan gynnwys pypiau gwres, biomás a solar thermol.

## Eiddo Domestig

Mae'r mathau o offer ynni ar gyfer **eiddo domestig** (naill ai tŷ, bloc o fflatiau neu dŷ allan) a 'ganiateir' yn amodol ar gyfyngiadau a nodir yn y GPDO fel a ganlyn:

- **Paneli solar ar do neu waliau** tai, fflatiau neu dai allan:
  - **Ar wal neu do ar oleddf** - hyd at ddyfnder o 200mm; ni chaiff y paneli gyrraedd yn uwch na rhan uchaf y to;
  - **Ar do gwastad** – mwy nag un metr o ymyl y to; ni chaiff ymwthio allan fwy nag un metr uwchlaw wyneb y to;
- **Un casgliad o baneli solar annibynnol** o fewn ffiniau tŷ neu fflat – dim mwy nag un casgliad solar annibynnol; ni chaiff fod yn uwch na phedwar metr (neu ddau fetr os yw o fewn pum metr i ffin y safle); ac nid yw'r casgliad solar i fod yn fwy na 9 metr sgwâr mewn maint;
- **Un pwmp sy'n codi gwres o'r ddaear neu'r dŵr** – unrhyw le o fewn ffin y tŷ;
- **Un pwmp sy'n codi gwres o'r aer** – rhaid iddo gydymffurfio â Safonau'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (**MCS**) neu safonau cyfatebol; ni chaiff tyrbin gwynt annibynnol fod wedi'i osod eisoes yno; ni chaiff yr uned gywasgu fod yn fwy nag un metr ciwbig; ni chaiff fod o fewn tri metr i ffin; ni chaiff fod ar do â goleddf nag o fewn un metr i ochr to gwastad; ni chaiff fod ar do neu wal sy'n

wynebu priffordd a dim ond at ddibenion gwresogi y gellir ei ddefnyddio;

- **Un simnai** – ar gyfer system wresogi biomás (hyd at un metr uwchben uchder y to);
- **Un tyrbin gwynt annibynnol** – ni chaiff pwmp sy'n codi gwres o'r aer fod wedi'i osod eisoes ar y safle; ni chaiff llafnau'r tyrbin fod yn adlewyrchol, rhaid i'r llafnau fod o leiaf bum metr uwchben lefel y ddaear ac ni chaiff yr ardal a ysgubir gan y tyrbin fod yn fwy na 9.6 metr sgwâr; ni chaiff fod yn uwch na 11.1 metr; ni chaiff y tyrbin fod yn nes at y ffin na 110 y cant o uchder y tyrbin; ni chaiff fod ar dir 'wedi'i ddiogelu' (at ddibenion hedfan neu amddiffyn); ac
- **Un mast mesur y gwynt dros dro (hyd at 12 mis)** (mast a osodir at ddibenion mesur cyflymder a chyfeiriad y gwynt) - ni chaiff tyrbin gwynt na phwmp sy'n codi gwres o'r aer fod wedi'i osod eisoes ar y safle; rhaid i'r mast fod yn is na 11.1 metr; ni chaiff fod yn nes at y ffin na 110 y cant o uchder y mast; ni chaiff mast mesur y gwynt fod wedi'i osod yn yr un lleoliad yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

Yn achos paneli solar (gan gynnwys paneli solar annibynnol), pypmpiau sy'n codi gwres o'r aer a thyrbinau gwynt, mae datblygiad a ganiateir yn amodol ar leihau'r effaith ar amwynder yr ardal a'r effaith weledol ar dŷ, fflat neu dŷ allan, a rhaid cael gwared ar y cyfarpar os nad oes ei angen mwyach.

Mae hawliau datblygu a ganiateir yn gosod terfyn ar gapasiti cynhyrchu (ac felly maint) system paneli solar domestig (fel y'i diffinnir gan y term microgynhyrchu), er y bydd faint o ynni a gynhyrchir yn amrywio yn dibynnu ar faint o olau haul a geir, lleoliad y paneli ac effeithlonrwydd y paneli. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer systemau biomás a systemau gwres a phŵer cyfunedig sydd wedi'u lleoli mewn adeilad.

Gall fod meysydd eraill lle y gallai arfer hawliau datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol roi 'Cyfarwyddyd Erthygl 4' i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl mewn ardal benodol, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid i gyfarwyddyd o'r fath gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Eiddo Annomestig

Mae Rhan 43 o Atodlen 2, Gosod offer cynhyrchu ynni annomestig, yn caniatáu ar gyfer paneli solar, casgliad o baneli solar annibynnol, pypmpiau gwres o'r ddaear, pypmpiau gwres ffynhonnell dŵr, simneiau sy'n rhan o systemau gwresogi biomás a simneiau sy'n rhan o systemau gwres a phŵer cyfunedig. Mae'r canllawiau ar gyfer

y datblygiadau hyn yn debyg i'r canllawiau ar gyfer eiddo domestig, ond ddim yn union yr un fath. Diwygiodd **Gorchymyn Diwygio 2019** Ran 43 i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosodiadau solar annomestig yng Nghymru. Yn bwysig, mewn perthynas â hyn:

- Nid yw **paneli solar ar doeau neu waliau** adeiladau masnachol yn dod o dan gyfyngiadau microgynhyrchu fel y'u diffinnir yn Neddf Ynni 2004. O ganlyniad, nid oes cyfyngiad ar y capasiti cynhyrchu, ac felly nifer y paneli solar y gellir eu gosod ar adeilad annomestig, yn amodol ar rai cyfyngiadau fel lleoliad/cynllun, ac agosrwydd at faes awyr neu faes glanio, a gofynion amodol fel lleoliad i leihau effaith unrhyw fflachiadau neu olau tanbaidd.

Mae hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i adeiladau ar dir amaethyddol neu dir coedwigaeth, i leoli cyfarpar microgynhyrchu, ac yn benodol tyrbinau hydro, boeleri biomás a systemau treulio anaerobig. Gellir defnyddio'r adeiladau i storio tanwydd a gwastraff cysylltiedig hefyd, cyhyd â bod y tanwydd neu'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu ar y tir amaethyddol neu'r tir coedwigaeth neu gan y boeler neu'r system.

## Pryd mae angen cais cynllunio?

Ni chaiff gosod rhai o'r technolegau ynni y soniwyd amdanynt uchod ei ystyried yn 'ddatblygiad a ganiateir' mewn **Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** neu os ydynt yn effeithio ar **Adeilad Rhestredig**. Mewn rhai achosion, felly, byddai angen cais cynllunio o hyd. Nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i **fflatiau** ond pan fo'r fflat wedi'i leoli mewn adeilad sydd ond yn cynnwys fflatiau. Os yw'r fflat uwchben siop, nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys.

Er bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer trybinau gwynt ar eiddo annomestig, gellir gosod un tyrbinnol ar eiddo domestig. Mae angen caniatâd cynllunio i osod tyrbinau gwynt ar wal neu do hefyd.

Mae pypiau gwres ffynhonnell aer yn ddatblygiad a ganiateir ar eiddo domestig (yn amodol ar gyfyngiadau) ond mae angen caniatâd cynllunio i osod un ar eiddo annomestig. Ar eiddo domestig, mae'n ofynnol i bwmp gwres ffynhonnell aer **beidio** â chael ei leoli o fewn 3m i ffin eiddo os yw am fod yn ddatblygiad a ganiateir, er mwyn lleihau pryderon posibl am sŵn a allai effeithio ar amwynder eiddo cyfagos.



## Rhagor o wybodaeth

### Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth sy'n cynnwys:

- **Polisi Cynllunio Cymru** (Argraffiad 11) polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- **Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040** Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040.
- **Cynllunio: arweiniad i ddeiliaid tai** Fersiwn 3 (diweddariad 2020)
- **Rheoliadau Cynllunio ar gyfer Microgynhyrchu** (2012)
- **Hawliau datblygu a ganiateir a phaneli solar ffotofoltäig a thermol annomestig** Adolygiad 2016 o reolau cynllunio sy'n berthnasol i baneli solar annomestig ac opsiynau ar gyfer diwygio'r rheolau hyn.
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012**
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2012**
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019**

**Sefydliad elusennol yw Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cyngori, gan gynnwys llinell gymorth.

### Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael ar **wefan Ymchwil y Senedd**.

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**. Beth yw cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach?